**Lliw**
Gall lliw cryf neu lachar ar ffenestri a waliau greu effaith amhleserus ar olygfa'r stryd. Yn aml mae lliwiau goleuach fel gwyn neu hufen yn fwy addas neu browniau, gleision neu wyrddion tywyll.

**Addurniadau**
Mae nifer o dai yn cynnwys amrywiaeth o fanylion addurnedig sy'n amrywio o nodweddion cerrig o gwmpas drysau a ffenestri i deils rhychiog a diweddebau addurnedig ar y toi. Mae'r manylion hyn yn cyfrannu at gymeriad y tŷ a dylent gael eu cynnal a'u cadw neu eu hadnewyddu pan fo angen. Gall cuddio neu gael gwared ar fanylion carreg cerfiedig o gwmpas drysau, ffenestri a pharapet ddifetha adeilad. Anogir eu trwsio yn lle cael gwared arnynt.

**Gwaith bric**
Dylid gofalu wrth ailbwyntio er mwyn osgoi difrodi golwg briciau wyneb. Dylid glanhau manylion pensaernïol cerrig gan gynnwys pob lintel, sil a chwrs llinyn. Dylid ceisio cael cyngor arbenigol cyn glanhau. Ni ddylai'r dull a ddefnyddir niweidio'r arwyneb na threulio'r mowldiau.

**Gwaith Adfer**
Mae nifer o adeiladau yn yr ardal gadwraeth wedi eu hamddifadu o'u cymeriad gwreiddiol wrth gael gwared ar fanylion pensaernïol a nodweddion addurniadol neu eu newid. Ceir nifer o ffyrdd o ddod o hyd i'r nodweddion y gall fod eu hangen arnoch ar gyfer gwaith adfer. Ceisiwch ddod o hyd i'r cynllun gwreiddiol neu fanylion coll cyn ymgeisio ar unrhyw waith adnewyddu neu dechreuwch drwy archwilio'r manylion i eiddo gerllaw sydd wedi ei gadw'n dda. Ar y llaw arall, holwch y llyfrgell leol. Efallai bydd ganddynt brintiau cynnar neu ffotograffau a allai fod o gymorth.

Mae rhai eitemau pensaernïol addurnedig yn cael eu gwneud nawr ac maent ar gael fel atgynyrchiadau da iawn. Dylech archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio deunyddiau traddodiadol newydd sbon lle'n bosibl ac osgoi defnyddio deunyddiau a achubwyd o ffynonellau anhysbys. Mae gan y rhan fwyaf o'r cymdeithasau amwynderau cenedlaethol, wefannau da fel ffynhonnell cyngor. Mae chwilio ar y we am eitem benodol yn aml yn arwain at nifer o ddolenni a gwybodaeth berthnasol.

**Coed**
Mae coed yn yr Ardal Gadwraeth yn cael eu gwarchod. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno torri, tocio dadwreiddio neu ddinistrio unrhyw goeden dros 75mm mewn diamedr wedi ei fesur 1.0m uwch ben y ddaear roi 6 wythnos o rybudd o'u bwriad, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Cysylltwch â'r Swyddog Cadw Coed ar (029) 2087 3178 am ragor o gyngor.

**Cyngor pellach**
Ceir mwy o ganllaw yng Ngwerthusiad Ardal Gadwraeth Tredegarville (Rhagfyr 2008) a fabwysiadwyd.

COFIWCH! Os byddwch yn datblygu neu'n newid rhywbeth sy'n gofyn am ganiatâd heb eich bod wedi ei gael yn gyntaf, gall camau gorfodi fod yn eich wynebu a all brofi'n drafferthus a chostus.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y wybodaeth ar y daflen hon, neu os hoffech gael copi o'r gwerthusiad cysylltwch â -

**Y Tîm Cadwraeth, Cynllunio Strategol, Cyngor Caerdydd, Ystafell 227, Neuadd y Sir, Glanfa r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW**
**Rhif Ffôn: 029 2087 3231 / 3485 / 3480**

CYNLLUNIO STRATEGOL
**Taflen gynghori i berchnogion eiddo yn Ardal Gadwraeth Tredegarville.**
**Diweddarwyd Mawrth 2010**

# TREDEGARVILLE



## ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

# Byw mewn **ardal gadwraeth**

## Mae eich eiddo yn Ardal Gadwraeth Tredegarville.

Ardal Ystad Tredegar yw ardal Tredegarville. Un o faestrefi cyntaf Caerdydd oedd hi ar adeg pan oedd y Ddinas yn tyfu mewn cyfoeth a maint. Er gwaetha'r ffaith ei bod erbyn hyn yn rhan o ardal ehangach Y Rhath, mae Tredegarville yn dal gafael ar ei chyfanrwydd pensaernïol a'i strydlun hanesyddol. Mae nifer o bobl yn parhau i gyfeirio at yr ardal fel 'Tredegarville'.

Cafodd yr Ardal Gadwraeth ei dynodi gyntaf ym mis Mawrth 1981 ac fe'i hadnabuwyd gynt fel Ardal Gadwraeth The Parade/The Walk. Ym mis Rhagfyr 2008, yn dilyn gwerthusiad o'r ardal, newidiwyd enw'r ardal gadwraeth a diwygiwyd ffin yr ardal, fel y dangosir ar y cynllun gyferbyn. Mae'r gwerthusiad erbyn hyn wedi ei gyhoeddi fel dogfen gynllunio a fabwysiadwyd, ac mae'n darparu disgrifiad o gymeriad yr ardal gadwraeth, cynllun ar gyfer ei gwella ac arweiniad ar sut i ddiogelu cymeriad yr ardal. Mae'r ddogfen ar gael oddi wrth y Tîm Cadwraeth neu ar wefan y Cyngor.

Mae'r arweiniad canlynol yn darparu crynodeb byr o'r rheolaethau cynllunio sydd ar waith o fewn yr ardal gadwraeth, gan grynhoi ychydig o arweiniad y gwerthusiad o ran trwsio neu adnewyddu eiddo. Os yw adeilad wedi ei Restru, bydd rheoliadau arbennig i'w gweithredu a all ddisodli'r cyngor.

### Rheoliadau cynllunio arbennig

Mae Tredegarville yn ardal o ddefnydd amrywiol lle mae angen caniatâd cynllunio yn gyffredinol ar gyfer datblygu neu ar gyfer unrhyw waith adnewyddu deunydd sydd ar wyneb allanol adeilad. Mae nifer o bwerau statudol gan y Cyngor er mwyn diogelu rhag rhai newidiadau i adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth. Mae'r rhain yn rheoliadau cynllunio arbennig sy'n berthnasol i waith ar dai annedd unigol yn yr ardal gadwraeth ac a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn 'Ddatblygiad a Ganiateir', h.y. gwaith na fyddai angen caniatâd cynllunio. Maent wedi'u crynhoi fel a ganlyn-

- **Arwynebau wal**

Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer gorchuddio gwaith bric/cerrig gydag unrhyw garreg, carreg artiffisial neu wyneb pren neu unrhyw driniaeth arwyneb arall. *

- **Soseri lloeren neu offer telathrebu arall**

Mae angen cael caniatad cynllunio cyn y gellir gosod neu ailosod soser lloeren neu offer telecyfathrebu arall os yw'n wynebu priffordd neu a fewn y tir *

- **Estyniadau to**

Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer ehangu eiddo drwy adeiladu estyniadau to neu newidiadau eraill i'r to.


### Dymchwel adeiladau

Gall fod angen caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchweliad llwyr adeilad neu adeiledd, dros 115 metr ciwbig (gan gynnwys waliau a thai allan). Os yw dymchweliad yn cael ei ystyried, yna dylid cysylltu â'r Adran Gynllunio.

* Mae angen ffi ar gyfer y math hwn o ganiatâd cynllunio.

### Canllaw dylunio

Mae polisi cynllunio mabwysiedig oddi fewn i gyngor llywodraeth, Canllaw Cynllunio Atodol Cynllun Lleol mabwysiedig a'r CDLl gosodedig yn hyrwyddo safon uchel o ddylunio ar gyfer adeiladau newydd ac ar gyfer newid neu adnewyddu eiddo sydd eisoes mewn ardaloedd cadwraeth. Dylai unrhyw adeiladau newydd gael eu dylunio i gydweddu mewn ffurf a maint gyda'r ardal. Dylai adeiladau sydd eisoes yn bodoli gael eu cynnal a'u cadw a'u hadnewyddu gyda gofal a sensitifrwydd.




Egwyddor gyntaf Ardal Gadwraeth yw cadw neu wella ei chymeriad arbennig. Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor ar ei chymeriad arbennig a'r ffyrdd y gellir cyflawni hyn. Rhoddir cyngor pellach yn y gwerthusiad ardal gadwraeth a fabwysiadwyd (Rhagfyr 2008). Er mwyn sicrhau bod cymeriad yr Ardal Gadwraeth yn cael ei gynnal a'i gadw, bydd y Cyngor yn disgwyl gweld bod y cyngor hwn yn cael ei ddilyn mewn ceisiadau lle mae angen caniatâd cynllunio.

### Pethau wedi'u hamgáu

Dylai waliau a rheiliau sy'n amgylchynu gerddi blaen neu ochr gael eu cadw yn hytrach na'u newid am amrywiaethau o waith bric, gwaith bloc neu ffensio sy'n wahanol i'w gilydd.

### Cynteddau

Dylai cynteddau ac agoriadau gwreiddiol gael eu cadw neu eu hadnewyddu drwy ddefnyddio deunyddiau sy'n cyd-fynd â'r gwreiddiol.

### Ffenestri a drysau

Mae cyfraniad pwysig gan ffenestri i'w gwneud i arddull y tŷ. Dylid cadw arddulliau a fframiau gwreiddiol ffenestri lle bo'n bosibl. Dylid cadw paneli drysau â gwydr lliw neu anrhyloyw a manylion cynteddau hanesyddol. Dylai ffenestri newydd adlewyrchu'n fanwl, arddull a dull agor y rhai hynny a osodwyd yn yr eiddo yn wreiddiol.

### Toeon

Yn gyffredinol, dylai deunyddiau gwreiddiol toeon gael eu cynnal a'u cadw. Dylai llechi naturiol neu deils newydd neu wedi eu hadfer o'r un lliw gael eu defnyddio lle cynigir gwneud gwaith to. Mewn rhai mannau, gall teil synthetig sydd o ansawdd a gwead da fod yn dderbyniol. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai teils rhychiog addurnedig ac estyll talcen gael eu cadw a'u trwsio.

### Estyniadau to a golau to

Lle bo addasiadau llofft yn bosibl, ni ddylai ffenestri dormer na golau to fod yn weladwy o'r stryd oni bai bod eu dyluniad a'u deunyddiau yn cydymdeimlo â chymeriad yr eiddo yn ei gyfanrwydd.

### Simneiau

Mae staciau a photiau simneiau yn aml yn rhan annatod o ddyluniad adeiladau oddi fewn i'r ardal gadwraeth. Os byddant yn anniogel ac angen eu trwsio dylent gael eu hailadeiladu i'r uchder a'r dyluniad gwreiddiol, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach.